COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 27.11.25

.

PRESENNOL – Awel Hughes, Gwynfryn Jones, Sioned Jones, Alun Jones Cadeirydd, Gwyn Davies, Glennydd Evans, Cyng. Gwennol Ellis, Rhian Ellis (Clerc)

1.YMDDIHEURIADAU – Llyr Jones, Carwyn Edwards

2. DATGAN BUDDIANNAU –

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir gan Gwynfryn Jones ac eilwyd gan Gwyn Davies

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – .

Y Clerc ddim wedi cael pris gan Gerallt Jones, Ysbyty Ifan, y Cadeirydd I gael gair gyda Ian Evans.

Mae Coeden Nadolig Dinmael wedi ei archebu gan Steven Tudor yn cael ei gadael gyda Awel a mae Awel a Sioned mewn trafodaethau I brynnu goleuadau addas iddi.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 29.10.25 - £13,294.91

6. TALIADAU – Cytunwyd I dalu yr isod gyda phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| Unllais Cymru Aelodaeth | s143 | £98.00 |
| Cyfrifiadur Microsoft | s111 | £84.99 |
| ICO Data Protection | s143 | £52.00 |

7. NEUADD FACH - Cyng Gwennol Ellis yn datgan iddi fod mewn cyfarfod Grantiau a wedi siarad gyda aelodau a sydd yn ariannu hen adeiliadau. Y Clerc I gael sgwrs gyda Jack Sargant o CADW ynglyn ar adeilad.

Awel I gael gair gyda Guthrie Jones a Jones ynglyn perchnogaeth ag adrodd yn ol yn y cyfarfod nesa.

8.CAEAU CHWARAE DINMAEL – Bu I'r Clerc ddatgan ein bod wedi bod yn ffodus I gael grant gan 'Conwy Play Opportunities' I gael offer I'r parc. Yn dilyn cyfarfod gyda David Dudley (Conwy), y Clerc, Sioned a Gwynfryn bu I David Dudley gynnig rhoi matiau gwarchod I gydfynd gyda'r offer Newydd, hefyd rhoi giat newydd a thrwsio y ffens.

Bu cryn drafod ynglyn a oes angen cymeryd y Les I'r parc ond penderfynwyd fod y Clerc I siarad gyda Owen Conroy (ERF) o'r Sir I weld y ffordd ymlaen a be fuasai yn cael ei gynnig yn y Les.

9. CYNLLUNIO – DIM

10. GOHEBIAETH

Llythyr yr Urdd Conwy yn gofyn am arian – Penderfynwyd ein bod dim ond am gyfrannu pan fydd yr eisteddfod yn lleol.

Llythyr Cyngor Conwy yn gofyn am gyfraniaiad tuag at Gweithgareddau yr Haf a’r llyfrgell yn  HWB Uwchaled. – Trafodwyd fod y cyfraniad maen’t yn ofyn amdano wedi codi yn aruthrol, y clerc I anfon llythyr I Amanda Hughes I nodi ein pryderon.

Llythyr Ambiwlans Awyr yn holi am arian – penderfynwyd cyfrannu £200 iddynt.

Llythyr Urdd yn gofyn am arian I gefnogi Cronfa Cyfle I Bawb 2026, penderfynwyd nad oeddem am gyfrannu I’r Urdd ond ein bod yn cyfrannu yn lleol I deulu falle fydd ei angen. Y clerc I siarad gyda Pennaeth yr Ysgol.

11. UNRHYW FATER ARALL –

Scottish Power – Gofyn I Carwyn I gael gair I weld a ydym yn dal mewn cytundeb.

Cynllunio – Codwyd pryder ynglyn a amser mae rhai ceisiadau cynllunio yn ei gymeryd I gael eu trafod o fewn y Sir – Cafwyd esboniad gan Cyng Gwennol Ellis a dywedodd y byddai’n ymchwilio i’r cais dan sylw.

Y ffordd angen ei thrwsio o’r grid gwartheg heibio’r sied yn Hendre Arddwyfan, y clerc I gysylltu gyda’r sir.

Dyddiad Pwyllgor nesa.

NOS FAWRTH 20fed o Ionawr am 7.30